

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.

Gweithredu Teams – rydym yn gobeithio eich bod yn gyfarwydd â rhaglen Teams bellach ac yn ei defnyddio'n barod gyda rhai tasgau gwaith cartref a negeseuon a ddaw o'r ysgol. Os fyddai angen cau dosbarth ar frys mi fyddem eisiau sicrhau fod **pob plentyn** yn medru cael mynediad i offer cyfrifiadurol addas er mwyn parhau gyda gweithgareddau dysgu cyfunol yn y cartref.

> [Logio i mewn i Hwb a Teams](#)

> [Sut i gyrraedd Assignments yn Teams](#)

Beth i wneud os nad oes gyda chi offer cyfrifiadurol addas – pe bae angen cau ar frys rydym eisiau gwneud yn siwr ein bod yn ymwybodol o ba ddisgyblion ym mha ddosbarthiadau fydd angen offer cyfrifiadurol er mwyn parhau gyda dysgu cyfunol yn y cartref. Os ydych yn rhagweld y byddai angen benthg gliniadur neu i-pad o'r ysgol yna ymatebwch i'r e bost hwn os gwelwch yn dda gyda enw a dosbarth eich plentyn ac unrhyw anghenion cyfrifiadurol

YMATEBWCH I'R E BOST YMA OS OES GYDA CHI UNRHYW OFYNION O SAFBWyNT OFFER CYFRIFIADUROL

Defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol – Rydym yn parchu eich hawliau i gyfathrebu ac i fynegi eich barn ar wefanau cymdeithasol megis Facebook / Instagram a.y.y.b ac yn derbyn fod hyn yn gyfle da i rannu gwybodaeth neu i ofyn am gyngor gyda agweddau sy'n ymwneud â'r ysgol megis gwaith cartref, rhannu gwybodaeth ac ati.

Fodd bynnag mae rhai ysgolion yn profi trafferthion wrth i rieni/ gwarcheidwaid roi sylwadau anaddas ar wefanau cymdeithasol am eu hysgolion, staff, rhieni/ gwarcheidwaid neu am ddisgyblion penodol. Yn ffodus nid ydym wedi derbyn unrhyw sylwadau difrifol sydd angen eu cyfeirio at Adran Gyfreithiol yr Awdurdod ond rydym yn ymwybodol iawn fod hyn yn bosibilrwydd yn y dyfodol.

Hoffwn atgoffa holl rieni / gwarcheidwaid Ysgol Gymraeg Aberystwyth i gysylltu yn uniongyrchol gyda'r ysgol os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plant.

Plant Mewn Angen – diolch am eich cyfraniadau hael heddiw, llwyddwyd i gasglu £632.00 tuag at yr apêl.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Thank you for your co-operation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.

Using Teams - we hope that you are familiar with Teams and already using it with some homework tasks and messages from school. If a class needed to be closed urgently we would want to ensure that every child has access to suitable computer equipment to continue blended learning activities at home.

> [Logging in to Hwb and Teams](#)

> [How to reach Assignments in Teams](#)

What to do if you do not have suitable computer equipment - in the event of an urgent closure we want to make sure that we know which pupils in which classes will need computer equipment to continue blended learning at home. If you anticipate that you would need to borrow a laptop or i-pad from school then please respond to this email with your child's name, class and any computer needs.

PLEASE RESPOND VIA THIS E-MAIL IF YOU HAVE ANY NEEDS WITH REGARDS TO COMPUTER EQUIPMENT.

Appropriate use of social media - we respect your rights to communicate and express your views on social websites such as Facebook / Instagram etc and accept that this is a good opportunity to share information or seek advice with aspects relating to school such as homework, information sharing etc.

However, some schools have experienced difficulties when parents / guardians comment inappropriately on social websites about their schools, staff, parents / guardians or specific pupils. Fortunately, we have not received any serious comments that need to be referred to the Authority's Legal Department but we are well aware that this is a possibility in the future.

I would like to remind all parents / guardians of Ysgol Gymraeg Aberystwyth to contact the school directly if you have any concerns about your children's education.

Children in Need – thank you for your generous donations today, we managed to raise £632.00 towards the appeal.

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 13/11/2020 prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk